ELGC(5)-17-18 Papur 12/ Paper 12

Huw Irranca-Davies AC
Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol

30 Mai 2018

Annwyl Huw

Rwyf wedi cael gohebiaeth am y penderfyniad i gau Grant Byw'n Annibynnol Cymru. Mae'r ohebiaeth gan Julie Morgan AC yn tynnu sylw at bryderon y bydd trosglwyddo cyllid i awdurdodau lleol, a rhoi'r gorau i neilltuo'r cyllid hwn, yn cael effaith andwyol ar bobl anabl. Er nad yw'n bosibl i'n Pwyllgor edrych ar y mater hwn yn fanylach ar hyn o bryd, mae gennym ddiddordeb ynddo fel mater cydraddoldeb a mater llywodraeth leol.

Rwy'n croesawu eich datganiad ar 23 Mai yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau pontio. Hoffwn gael manylion pellach yn dilyn y datganiad hwn. Mae'r datganiad yn dweud bod 75% o hawlwyr naill ai wedi cwblhau'r adolygiad o'r cymorth iddynt yn y dyfodol, neu wrthi'n gwneud hynny. A allwch chi egluro a yw'r pecynnau cymorth y cytunwyd arnynt yn darparu'r un lefel o gymorth â'r hyn a ariannwyd drwy'r Grant? A fu unrhyw achosion lle nad oedd modd dod i gytundeb, ac os felly, pa drefniadau sydd ar waith er mwyn helpu i ddod i gytundeb? A allech chi hefyd egluro'n union faint o bobl y mae angen cytuno ar becynnau ar eu cyfer o hyd?

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Julie Morgan AC, a dynnodd fy sylw at y mater hwn.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir

John Griffiths AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English

Cc Julie Morgan AC